Datganiad Newyddion

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

30 Mehefin 2010

Dysgwyr yn gadarn wrth wraidd fframwaith arolygu newydd Estyn

Heddiw, mae Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant i Gymru, yn lansio ei fframwaith arolygu newydd ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a'r sector ôl-16 yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod.

Bydd cynrychiolwyr o grwpiau rhanddeiliaid Estyn, penaethiaid, colegau, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau addysgol yn mynychu'r cynadleddau ar 30 Mehefin a 1 Gorffennaf i ddarganfod beth mae'r fframwaith newydd yn ei olygu yn ymarferol.

Dywedodd Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, *"Rydym wedi gweithio'n galed dros y ddwy flynedd ddiwethaf i ddatblygu fframwaith arolygu newydd, trwy ymgynghori â darparwyr addysg, dysgwyr a grwpiau cymunedol, sy'n golygu mai'r dysgwr sydd wrth wraidd arolygiadau ac yn sicrhau mai darparwyr sy'n gyfrifol am arfarnu eu cryfderau a'u gwendidau trwy hunanarfarnu gwell.'*

Bydd cynrychiolwyr yn cael y cyfle i glywed mwy am y fframwaith newydd ac arfer orau mewn hunanarfarnu a hunanasesu yn ogystal â chlywed gan ddarparwyr a gymerodd ran yn arolygiadau peilot Estyn ynglŷn â sut mae'r fframwaith newydd yn gweithio yn ymarferol. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cyfrannu mewnbynnau sy'n gwneud y cysylltiadau gyda'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd.

-DIWEDD-

I gael mwy o wybodaeth, neu gyfweliad, cysylltwch â:

Gina Carrington,
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gov.uk

02920 446454
Nodiadau i olygyddion

Cefndir i'r fframwaith arolygu newydd

Datblygwyd fframwaith newydd Estyn ar ôl ymgynghoriad cenedlaethol dau gam. Gofynnwyd i ddarparwyr addysg, dysgwyr a grwpiau cymunedol am eu safbwyntiau am arolygu trwy gyfres o grwpiau ffocws. Defnyddiwyd eu hadborth i ddatblygu set o gynigion ar gyfer y fframwaith arolygu newydd a bu'n sail i ymgynghoriad tri mis ffurfiol a chyhoeddus.

Cafodd yr ymgynghoriad ymateb hynod gadarnhaol o bob sector a thros y flwyddyn ddiwethaf, mae Estyn wedi parhau i weithio gyda darparwyr a dysgwyr ar ddatblygu'r fframwaith arolygu newydd. Cynhaliwyd arolygiadau peilot ym mhob sector ac mae'r rhain hefyd wedi derbyn canmoliaeth.

Bwriad y fframwaith newydd yw cydnabod a chefnogi mwy o weithio cysylltiedig ar draws gwahanol sectorau'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a sicrhau mai dysgwyr sydd wrth wraidd arolygiadau bob amser.

Prif nodweddion y fframwaith newydd

- **Rôl ganolog newydd – yr arolygydd cymheiriaid.** Mae Estyn wedi hyfforddi uwch athrawon a rheolwyr o ysgolion, colegau a darparwyr eraill i arsylwi gwersi, gwrando ar ddysgwyr ac ymgynghori gyda staff a dysgwyr mewn darparwr ar wahân i'w darparwr eu hunain.

- **Bydd arolygiadau wedi'u harwain gan Estyn yn cael eu cyflwyno mewn ysgolion dros y tair blynedd nesaf.** Bydd hyn yn helpu sicrhau bod darparwyr yn fwy hyderus ynglŷn â chanfyddiadau arolygu.

- **Mwy o bwyslais ar hunanarfarnu.** Bydd angen i ddarparwyr wybod eu cryfderau eu hunain a'u meysydd i'w gwella.

- **Dull byrrach, symlach ar gyfer arolygu.** Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael i gefnogi a rhoi arweiniad i ddarparwyr gwannach.

- **Pedair barn newydd:** Rhagorol, Da, Digonol ac Anfoddhaol

- **Pedair wythnos o rybudd ynghylch arolygiad** ar gyfer y rhan fwyaf o ddarparwyr

- **Tri chwestiwn allweddol a deg dangosydd ansawdd.** Bydd y rhain yn canolbwyntio ar ansawdd y ddarpariaeth, deilliannau dysgwyr ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

Ynglŷn ag Estyn

Estyn yw'r Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant ar gyfer Cymru. Ein nod yw cyflawni rhagoriaeth i bawb mewn dysgu yng Nghymru. Rydym yn gwneud hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol, o ansawdd uchel.

Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod trwy arbenigedd ein staff fel llais awdurdodol ar ddysgu yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol ar, ond yn cael ein hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

I gael mwy o wybodaeth, trowch at ein gwefan, sef www.estyn.gov.uk